



**Comisiynydd y  
Gymraeg  
Welsh Language  
Commissioner**

**Teitl swydd:** Swyddog Polisi

**Math o gontract:** Parhaol

**Oriau Gwaith:** 37 awr yr wythnos

**Cyflog:** HEO, £32,460 - £39,690

**Lleoliad:** Hyblyg – gweithredir trefniant gweithio hybrid. Yn ogystal â'r dewis i weithio o gartref, lleolir hybiau gwaith yng Nghaerdydd, Caernarfon, Caerfyrddin, a Rhuthun.

**[Prif nod Comisiynydd y Gymraeg yw hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg.](#)**

Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 sefydlodd swydd Comisiynydd y Gymraeg, ac mae'n egluro beth yw rôl y Comisiynydd a'i staff. Mae'r Comisiynydd yn ehangu hawliau pobl i ddefnyddio'r Gymraeg drwy osod dyletswyddau cyfreithiol ar sefydliadau a gorfodi'r dyletswyddau hynny lle bo angen, mae rhan o'r gwaith hwn yn cynnwys ymchwilio i gwynion. Ymchwilir hefyd i geisiadau yn ymwneud ag ymyrraeth â'r rhyddid sydd i ddefnyddio'r Gymraeg yng Nghymru. Mae'r sefydliad yn gwneud gwaith megis ymchwil, cyhoeddi adroddiadau yn ogystal â rhoi cyngor a gwneud argymhellion. Gwneir gwaith dylanwadu ar bolisi lle mae gwneud hynny'n strategol bwysig i'r Gymraeg. Mae'r Comisiynydd hefyd yn hwyluso defnyddio'r Gymraeg yn ehangach gan weithio yn y trydydd sector a'r sector preifat. Yn fwy cyffredinol mae'n gyfrifol am safoni enwau lleoedd ac am hyrwyddo'r cynllun Iaith Gwaith a chynhelir ymgyrchoedd ymysg defnyddwyr y Gymraeg yn rheolaidd i roi gwybod am ein gwaith a'r cyfleoedd sydd i ddefnyddio'r Gymraeg.

**Y swydd**

Mae gennym gyfle cyffrous i berson brwdfrydig a chreadigol sy'n dymuno gweithio gyda thîm y Comisiynydd i sicrhau bod y Gymraeg yn ystyriaeth ganolog mewn polisi a deddfwriaeth.

Am fwy o wybodaeth cysylltwch â ni trwy [swyddi@cyg-wlc.cymru](mailto:swyddi@cyg-wlc.cymru) neu 0345 6033221.

**Dyddiad cau:** 12:00 awr, 3 Ebrill 2023

**Dyddiad cyfweled rhithiol:** 17 Ebrill 2023

## Disgrifiad swydd

---

<b>Teitl y swydd:</b>	<b>Swyddog Polisi</b>
<b>Graddfa:</b>	<b>HEO</b>
<b>Yn atebol i:</b>	<b>Uwch Swyddog Polisi</b>

### PRIF DDYLETSWYDDAU

#### Craffu ar deddfwriaeth a dylanwadu ar bolisi

1. Cyfrannu i waith y Tîm Polisi er mwyn gweithredu amcan Cynllun Strategol Comisiynydd y Gymraeg o sicrhau bod y Gymraeg yn ystyriaeth ganolog mewn polisi a deddfwriaeth. Rhoi sylw neilltuol i'r meysydd sydd fwyaf eu dylanwad ar hyfywedd yr iaith Gymraeg, megis Addysg a Sgiliau; Iechyd; Cymunedau Cymraeg a Darlledu.
2. Cyflwyno sylwadau ar bolisi a deddfwriaeth yn y ffordd fwyaf addas, a chynnig cyngor neu argymhellion a fydd yn cyfrannu at gynyddu cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg yng Nghymru.
3. Tracio datblygiadau polisi a deddfwriaeth mewn gwahanol feysydd yn barhaus.
4. Cadw trosolwg o effaith pob darn gwaith y mae'r swyddog yn gyfrifol amdanynt, lle ymdrechwyd i ddylanwadu ar gwrs polisi neu deddfwriaeth gan ystyried ffyrdd o symud yr agenda ieithyddol yn ei blaen.
5. Darparu tystiolaeth i Bwyllgorau Senedd Cymru a Senedd y DU fel rhan o brosesau datblygu polisi a llunio Biliau a Deddfau, fel sy'n briodol.
6. Bydd gofyn briffio'r Comisiynydd yn ogystal â chynulleidfaoedd allanol a chwilio am gyfleoedd i gydweithio a rhannu gwybodaeth.

#### Cydweithio a rhannu gwybodaeth

7. Cydweithio a rhannu gwybodaeth â phartneriaid perthnasol i ddylanwadu ar bolisi a deddfwriaeth a chyfrannu yn adeiladol at drafodaethau yn ymwneud â meysydd sy'n effeithio ar y Gymraeg.
8. Mynychu fforymau perthnasol a threfnu cyfarfodydd gyda gweision sifil er mwyn dylanwadu'n gadarnhaol ar yr ystyriaeth a roddir i'r Gymraeg.
9. Ar y cyd â thîm cyfathrebu'r Comisiynydd, canfod ffyrdd o rannu gwybodaeth am safbwynt y Comisiynydd ar bolisi a deddfwriaeth a gwaith y Comisiynydd yn sicrhau bod y Gymraeg yn ystyriaeth ganolog mewn polisi a deddfwriaeth.

## Ymchwilio ac Adrodd

10. Cydweithio â phartneriaid allanol a swyddogion sy'n gyfrifol am gydlynu gwaith ymchwil y Comisiynydd er mwyn sicrhau bod gan y Comisiynydd y sail tystiolaeth angenrheidiol i allu dylanwadu ar bolisi a deddfwriaeth.
11. Cyfrannu at brosiectau ymchwil y Comisiynydd i sicrhau bod gennym y sail tystiolaeth angenrheidiol i allu dylanwadu ar bolisi a deddfwriaeth
12. Datblygu dulliau rhagweithiol a chreadigol o gyfleu barn a safbwynt y Comisiynydd ar wahanol feysydd polisi.

## Dyletswyddau Cyffredinol

13. Gweithredu'n gyson ac yn amserol yn unol â holl bolisiau a chanllawiau'r Comisiynydd.
14. Ymgymryd ag unrhyw ddyletswyddau perthnasol eraill yn ôl y galw.

## Manyleb person

PRIODOLEDDAU	HANFODOL	DYMUNOL
<b>CYMWYSTERAU</b>	<p>Gradd/cymhwyster proffesiynol mewn maes perthnasol</p> <p>Tystiolaeth o astudio/datblygu parhaus mewn maes perthnasol</p>	
<b>PROFIAD</b>	<p>Profiad o weithio ym maes polisi a deddfwriaeth</p> <p>Profiad o ddeall a chraffu ar ddeddfwriaeth a pholisi</p> <p>Profiad o lunio papurau yn mynegi safbwynt ar sail deall a dehongli gwaith ymchwil a thystiolaeth</p>	Profiad o weithio ym maes y Gymraeg
<b>SGILIAU A GWYBODAETH</b>	<p>Dealltwriaeth o swyddogaethau'r Comisiynydd o dan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011 ac o safonau'r Gymraeg</p> <p>Gwybodaeth a dealltwriaeth o bolisi hybu a hyrwyddo'r Gymraeg a meysydd polisi sy'n effeithio ar y Gymraeg, megis addysg, iechyd, cynllunio</p> <p>Gallu gweithio'n strategol a gweld y darlun cyfan mewn meysydd polisi sy'n effeithio ar y Gymraeg</p> <p>Gallu cyfathrebu'n rhugl yn y Gymraeg a'r Saesneg â nifer o gynulleidfaoedd gwahanol ar lafar ac yn ysgrifenedig</p> <p>Gallu cydweithio a chyfathrebu'n effeithiol ag eraill gan gynnwys staff, y cyhoedd, gwleidyddion a llunwyr polisi o sefydliadau eraill</p>	<p>Ymwybyddiaeth neu brofiad o weithredu yn unol ag arfer gorau o fewn y gwasanaeth cyhoeddus</p> <p>Sgiliau neu brofiad o waith ymchwil ansoddol neu feintiol</p>

	<p>Gallu paratoi a chyflwyno adroddiadau yn broffesiynol ac i safon uchel.</p> <p>Sgiliau dylanwadu a pherswadio.</p> <p>Sgiliau rheoli gwaith a rheoli prosiect</p>	
<b>PRIODOLEDDAU PERSONOL</b>	<p>Diddordeb brwd yn yr iaith Gymraeg, materion Cymreig a gwleidyddiaeth Cymru</p> <p>Gallu blaenoriaethu gwaith a gweithio i amserlenni tynn.</p> <p>Gallu hunan ysgogi a gweithio yn annibynnol ac fel rhan o dîm.</p> <p>Gallu gwneud penderfyniadau a gweithredu arnynt.</p> <p>Sgiliau rhyngpersonol cryf mewn sefyllfaoedd ffurfiol ac anffurfiol</p> <p>Creadigol, brwdfrydig ac egnïol wrth ganfod dulliau gwreiddiol o weithredu.</p>	

## Amodau a thelerau

<b>Contract</b>	Parhaol
<b>Cyflog</b>	Y raddfa gyflog flynyddol ar gyfer y swydd hon yw £32,460 i £39,690 Caiff y cyflog ei dalu'n fisol, fel rheol ar y diwrnod olaf yn y mis.
<b>Lleoliad</b>	Hyblyg a hybrid – Caerdydd, Caernarfon, Caerfyrddin, Rhuthun
<b>Pensiwn</b>	Mae Comisiynydd y Gymraeg yn gweithredu Cynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil. Yn unol â Deddf Pensiynau 2008 mae'n ofynnol i ni eich cofrestru'n awtomatig – os ydych am eithrio eich hunan o'r cynllun pensiwn bydd gofyn i chi ein hysbysu yn ysgrifenedig.
<b>Oriau Gwaith</b>	Yr oriau amodol ar gyfer y swydd yma yw 37 awr yr wythnos, heb gynnwys toriadau prydau bwyd.
<b>Oriau hyblyg</b>	Mae'n rhydd i staff Comisiynydd y Gymraeg ddewis gweithio oriau hyblyg. O dan y cynllun, mae'n rhaid i unigolyn weithio cyfanswm o 37 awr yr wythnos (yn ddarostyngedig i'r hawl i gario amser drosodd).
<b>Gwyliau</b>	Yn flynyddol cewch 31 diwrnod o wyliau gyda chyflog. Yn ogystal cewch 10 diwrnod o wyliau cyhoeddus a braint.
<b>Cyfnod Prawf</b>	Bydd eich swydd gyda Chomisiynydd y Gymraeg ar brawf am 6 mis.